# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 30 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Agenda

(219)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol aelodau i bwyllgorau**

**NDM5588 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru);

(ii) Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Cyllideb Ddrafft 2014-15

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Grwp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Ddulliau Addysgu Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth

**5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Swyddogion Cymorth Cymunedol - Flwyddyn yn Ddiweddarach (30 munud)**

**6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â'r drosedd o gam-drin neu esgeulustod bwriadol gan weithwyr gofal (15 munud)**
**NDM5540 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n ymwneud â throsedd esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan ofalwyr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gellir cael copi o'r Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yma:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/criminaljusticeandcourts.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7 Dadl: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus (60 munud)**
**NDM5581 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod pwysigrwydd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diogelu cyllid ac annibyniaeth golygyddol darlledwyr iaith Gymraeg.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu:

a) y dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU;

b) y dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; ac

c) y dylai bwrdd Ofcom gynnwys aelod sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynrychioli Cymru.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid datganoli trwyddedu radio cymunedol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi trydydd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom y bwriedir ei gyhoeddi yr haf nesaf.

**Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae o ran cynyddu cyfranogiad yn y broses wleidyddol a'r dylanwad y maent yn ei gael ar fywyd diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau dyfodol yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 7 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau atebolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r Cynulliad hwn yn ogystal ag i Senedd y DU.

**Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y dirywiad mewn rhaglennu lleol ar radio masnachol.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Hydref 2014